National Park Authority
Pembrokeshire Coast
Arfordir Sir Benfro
Awdurdod Parc Cenedlaethol

**Protocol ar gyfer delio gyda Cheisiadau Cynllunio ar gyfer safleoedd gwersylla 28 diwrnod**

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu'r protocol ar gyfer blaenoriaethu ceisiadau cynllunio sy'n ddibynnol ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 (1) nad yw'n dod i rym yn syth er mwyn tynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer defnyddio tir i wersylla, ar gyfer carafannau a/neu gartrefi symudol am lai na 28 diwrnod.

Mae'r Cyfarwyddyd Erthygl 4(1), sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2026 yn golygu y bydd angen hawl cynllunio i ddefnyddio tir ar gyfer gwersylla dros dro, carafannau a/neu gartrefi symudol am hyd at 28 diwrnod. Bydd y mesur hwn yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch traweffaith amgylcheddol ac amharu ar y gymuned a achosir gan safleoedd gwersylla dros dro, gan sicrhau bod safleoedd gwersylla dros dro yn cael eu cynllunio'n gywir.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall safleoedd 28 diwrnod ddarparu incwm i ffermwyr, tyddynwyr a busnesau gwledig ac mae yna bryder y byddai Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) yn cyfyngu ar ffynhonnell ar incwm. Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi ymrwymo i gefnogi twf economaidd a chymunedau ffyniannus ac amcan y cyfyngiad hwn yw sicrhau bod y broses wneud penderfyniadau yn deg, yn dryloyw ac yn effeithiol ac yn alinio gyda nodau strategol lleol ac anghenion y gymuned.

I'r ymgeiswyr hynny a fydd yn awr angen caniatâd cynllunio ffurfiol o ganlyniad i'r Cyfarwyddyd Erthygl 4(1), bydd yr Awdurdod yn darparu adnodd digonol er mwyn sicrhau bod hynny yn rhoi caniatâd i safleoedd 29 diwrnod gael blaenoriaeth a'u bod yn cael eu delio â hwy mewn ffordd amserol, gyda deilliannau datblygu o safon.

Bydd y mathau canlynol o geisiadau cynllunio yn cael eu blaenoriaethu:

1. Ceisiadau Llawn ar gyfer gwersylloedd 28 diwrnod

2. Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon (Presennol ac a Gynigir) ar gyfer gwersylloedd 28 diwrnod

3. Rhyddhau Amgylchiadau ar gyfer gwersylloedd 28 diwrnod

Nodwch os gwelwch yn dda na fydd swyddogion yn gallu gwneud unrhyw eithriadau ar gyfer achosion unigol er y byddant serch hynny yn ceisio rhoi sicrwydd y bydd pob cais yn derbyn y flaenoriaeth angenrheidiol fel y nodwyd uchod.

Mae blaenoriaethu ceisiadau cynllunio yn ddibynnol ar ddull rhagweithiol gan yr ymgeisydd, sy'n cynnwys gwybodaeth ddigonol er mwyn cefnogi cais cynllunio.

Mae’n bwysig lle mae angen gwybodaeth ychwanegol gan swyddogion yr Awdurdod er mwyn eu galluogi nhw i wneud argymhelliad bod yr ymgeisydd yn ei ddarparu mewn ffordd amserol.